



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwasanaethau a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Ymchwiliad i iechyd emosiynol a meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru

Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Cymorth i Ferched Cymru

Dyddiad cau: 29.09.17

Enw:	<i>Hilary Watson, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad ebost:	<i>HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif ffôn:	<i>02920 451 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma farn:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru i aelodau sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i'r 24 o wasanaethau arbenigol yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol¹). Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o ddarpariaeth rhwydwaith yn y DU.

Fel corff ymbarél, ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cynghori a chefnogi comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth ddatblygu asesiadau anghenion a chynlluniau strategol VAWDASV, hyrwyddo tystiolaeth ar gyfer modelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau ymbarél niferus a gyflwynwn i'n haelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod wasanaethau â datblygiadau polisi, deddfwriaethol a strategol perthnasol ac annog cyd-gynhyrchu wrth ddatblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflawni ymarfer addawol yn y sector; darparu cymorth gyda materion polisi ac ymarfer, ac adroddiadau dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu.

Rydym ni hefyd yn cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae

¹ Ein haelodaeth sef 24 o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynw a'i integreiddio: BAWSO, Hafan Cymru, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Llamau, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cyfannol, Safer Merthyr Tudful, Cymorth i Ferched Casnewydd, Cymorth i Ferched Port Talbot & Afan, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold, Atal Y Fro, Cymorth i Ferched RCT, Calan DVS, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grŵp Cynefin) a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych (NDDAS).

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Diaperu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Plant yn Bwysig sydd, er enghraifft, yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a chyflwyno rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota'r Gwasanaethau Goroewyr yn Grymuso ac Addysgu (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu ar wasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau cyhoeddus a chymunedol.

Rydym ni hefyd yn gweithredu Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, sy'n fframwaith achredu i wasanaethau arbenigol cam-drin domestig yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir rhagor o wybodaeth am y Safonau yma: <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

1.1 Ymateb Cymorth i Ferched Cymru

1.2 Fel y corff ymbarél ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru mae ein hymateb yn seiliedig ar ymgynghori gyda'n haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac mae'n adlewyrchu eu profiadau ar draws y rhanbarth. Mae profiadau ein haelodau o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Glasoed (CAMHS) yn amrywio'n go sylweddol ar draws Cymru, gyda goroeswyr yn wynebu loteri cod post mewn perthynas ag ansawdd y Gwasanaethau CAMHS maen nhw neu eu plant yn eu derbyn.

Casglwyd yr wybodaeth yn yr ymateb ymgynghoriad hwn drwy ymgynghori ag aelod-wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod Cymorth i Ferched Cymru a gyda goroeswyr drwy brosiect SEEdS Cymorth i Ferched Cymru (Gwasanaethau Goroewyr yn Grymuso ac Addysgu), y mae eu plant wedi defnyddio CAMHS yng Nghymru.

2.1 Crynodeb o argymhellion Cymorth i Ferched Cymru

- 1) Lleihau amseroedd aros i blant a phobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau CAMHS, yn arbennig y rheini sydd â rhestrau aros hir fel gwasanaethau i gleientiaid sydd â PTSD a gor-bryder.
- 2) Galluogi ansawdd gwasanaeth cyson ar draws Cymru, gan adeiladu ar ymarfer da sy'n cael ei gyflenwi mewn rhai ardaloedd i sicrhau ei fod ar gael i'r holl blant a phobl ifanc ar draws Cymru.
- 3) Dylai fod gan staff CAMHS well dealltwriaeth o'r canlynol:
 - a) Trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV);
 - b) Yr effaith y gall VAWDASV ei gael ar blant a phobl ifanc fel tystion i gam-drin a goroeswyr cam-drin eu hunain;
 - c) Yr effaith y gall VAWDASV ei gael ar y rhiant nad yw'n cam-drin, y gall eu plant a phobl ifanc fod yn defnyddio gwasanaethau CAMHS;
 - d) Cyflawni VAWDASV ac ymarfer diogel.
 - e) Anghenion lluosog cymhleth plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin neu drais er mwyn iddynt gallu trin y cleient yn gyfannol yn hytrach na chanolbwyntio ar un mater penodol fel ADHD ac ati.
- 4) Mae dirfawr angen pontio cliriach a mwy llyfn o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion sy'n caniatáu i bobl ifanc ac oedolion ifanc barhau i ddefnyddio'r un gwasanaethau tra byddant yn pontio rhwng CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion.





Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



- 5) Ymarfer addawol mewn gwasanaethau CAMHS, sy'n cydweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, i'w fabwysiadu ar draws Cymru gan sicrhau gwaith partneriaeth da ar draws pob rhanbarth.
- 6) Dylid anfon 'Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru' Llywodraeth Cymru i bob sefydliad addysg gydag ymrwymiad clir i'w gyflwyno ym mhob ysgol.

3.1 CAMHS arbenigol – amseroedd aros

3.2. Mae aelod-wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod Cymorth i Ferched Cymru wedi canfod bod atgyfeirio o fewn CAMHS yn amrywio gan ddibynnu ar natur yr atgyfeiriad a lleoliad y gwasanaeth arbenigol sydd wedi ei wneud. Soniodd un gwasanaeth arbenigol bod yr amser ymateb i gleientiaid oedd yn derbyn atgyfeiriad gwasanaeth oherwydd syniadaeth hunanladdol a hunananafu yn "dda iawn" gan ddweud bod nifer o blant wedi derbyn gwasanaeth prydlon iawn yn 2017.

3.3 Fodd bynnag, cododd yr un gwasanaeth arbenigol bryderon am blant sy'n derbyn gwasanaeth CAMHS yn ymwneud â symptomau anhwylder straen ar ôl trawma (PTSD) a gor-bryder, lle mae'r rhestrau aros yn parhau'n hir iawn. Arhosodd un plentyn am saith mis am wasanaeth. Er hynny, dywedodd yr aelod-wasanaeth arbenigol fod staff CAMHS ar gael dros y ffôn ac yn cynnig yr holl help y gallent yn nhermau adnoddau a gweithgareddau i helpu'r person ifanc yn ystod yr arhosiad hir hwn.

3.4 Roedd gan wasanaeth arbenigol arall mewn lleoliad gwahanol adborth llai cadarnhaol gan eu cleientiaid a gyrchodd wasanaethau CAMHS. Mewn cyferbyniad, roedd goroeswyr yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth cyfyngedig oedd i'w weld yn cymryd amser hir i'w sefydlu. Unwaith roedd y cymorth wedi'i sefydlu, fe'i cynigiwyd yn gyflym cyn iddo ddod i ben, heb unrhyw gymorth ychwanegol, yn dilyn ei gwblhau.

3.5 Cafwyd adborth cadarnhaol gan un gwasanaeth arbenigol, a ddywedodd "pan ydym ni wedi gwneud atgyfeiriadau i'n hardal leol maent wedi'u gweithredu'n gyflym". Er bod eu cyswllt cyfyngedig gyda gwasanaethau CAMHS wedi bod yn gadarnhaol, mae "atgyfeirio at gymorth parhaus yn anodd" yn yr ardal "gan nad oes unrhyw wasanaethau lleol".

Argymhellion:

- 1) **Lleihau amseroedd aros i blant a phobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau CAMHS, yn arbennig y rheini sydd â rhestrau aros hir fel gwasanaethau i gleientiaid sydd â PTSD a gor-bryder;**
- 2) **Galluogi ansawdd gwasanaeth cyson ar draws Cymru, i bob grŵp o gleientiaid.**

4.1 Cyllido –

- a) y graddau y mae mynediad at therapiâu seicolegol i bobl ifanc wedi gwella
- b) plant a phobl ifanc mewn gofal, plant sydd ag ADHD ac anhwylderau sbectrw m awtistig ac ati.

4.2. Mewn rhai aelod-wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, codwyd pryderon am adborth pobl ifanc wrth gael cymorth:





Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Diapera gyfodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yn Nghymru



4.3 Cafwyd adborth gan weithwyr gwasanaethau arbenigol plant a phobl ifanc mewn rhai ardaloedd o Gymru nad oedd plant a phobl ifanc yn eu hardal oedd wedi defnyddio gwasanaethau CAMHS mewn perthynas â thystio neu brofi cam-drin domestig bob amser wedi cael y profiad na'r cymorth gorau. Roedd plant a phobl ifanc yn teimlo nad oedd y gwasanaethau o reidrwydd yn adlewyrchu'r cymorth cywir oedd ei angen arnynt, gan ddweud eu bod yn ei chael yn anodd creu cyswllt gyda gweithwyr CAMHS a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel rhan o system ffurfiol yn hytrach nag ar sail unigol.

4.4 Roedd adborth pellach o sgysiau a gafwyd gyda goroeswyr trais a cham-drin yr oedd eu plant wedi defnyddio gwasanaeth CAMHS yn codi pryderon am ddiffyg dealltwriaeth am drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol. "Dwyf i ddim yn credu bod y seiciatryddion CAMHS a roddwyd i ni yn cymryd eu cyfrifoldeb ddigon o ddifrif i ymchwilio i gam-drin domestig a'i effeithiau a arweiniodd at niwed a newidiodd fywyd fy merch a galar anfesuradwy i fi." - Goroeswr

4.5 Adroddodd un gwasanaeth arbenigol bod "mamau'n teimlo eu bod yn cael eu gadael i ddelio gyda'r plant a'u hymddygiad, dydyn nhw ddim yn cael llawer o gyfarwyddyd na chymorth ar yr hyn y gallent ei wneud i gefnogi'r plentyn. Mae mamau'n teimlo bod lefel uchel o ddisgwyliad gan y gwasanaeth [CAMHS] arnyh nhw a gyda'r pwysau allanol a ffactorau fel dianc rhag perthynas o gam-drin dydyn nhw ddim bod amser yn realistig. Mae'r pwysau diangen hyn yn gwneud i'r fam gael emosiynau dwys / teimladau o fethiant, euogrwydd a pheidio â gallu gofalu am anghenion / lles y plant." - aelod-wasanaeth arbenigol Cymorth i Ferched Cymru

4.6 Codwyd pryderon hefyd am ddealltwriaeth gwasanaethau CAMHS wrth ryngweithio gyda chyflawnwyr trais yn erbyn menywod posibl yn erbyn y fam a'r plant a phobl ifanc sy'n ceisio cymorth. Adroddodd un goroeswr bod y cyflawnwr yn bresennol yn ystod apwyntiadau gyda CAMHS yn ogystal â'i bod yn cael ei dal yn gyfrifol am ymddygiad y cyflawnwr. Mae hyn yn amlygu diffyg dealltwriaeth o ymddygiad cymhellol a rheoli.

4.7 Codwyd pryderon pellach gan aelod-wasanaethau arbenigol os oedd gan blant a phobl ifanc anghenion cymorth ychwanegol fel awtistiaeth, ADHD, Asperger's ac ati, y byddai'r ffocws neu'r rhesymu a gynigid gan CAMHS yn adlewyrchu'r angen ychwanegol yn hytrach na'r hyn mae'r plant a phobl ifanc wedi'i weld neu ei brofi mewn perthynas â'u profiad o drais yn erbyn menywod.

4.8 Mewn cyferbyniad, dywedodd gweithiwr plant a phobl ifanc o aelod-wasanaeth arbenigol arall, oedd ag adborth cadarnhaol iawn yn gyffredinol ynghylch gwasanaethau CAMHS, "yn ystod fy sesiynau gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael neu sydd yn derbyn cymorth gan CAMHS maen nhw'n siarad yn gadarnhaol iawn am eu cyfnod yn gweithio gyda CAMHS, a bod y cymorth maen nhw wedi'i dderbyn yn berthnasol i'w hanghenion emosiynol." Aeth ymlaen i ddweud ei bod wedi cael cyfle i weithio'n agos gyda CAMHS ac "ar fwy nag un achlysur rwyf i wedi cael CAMHS yn wasanaeth sy'n barod i roi cyngor ac arweiniad ar y ffordd orau ymlaen wrth gefnogi plant a phobl ifanc gyda phroblemau emosiynol ac iechyd meddwl."





Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chellogeith cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Argymhellion:

7) Dylai fod gan staff CAMHS well dealltwriaeth o'r canlynol:

- i) Trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV);
- ii) Yr effaith y gall VAWDASV ei gael ar blant a phobl ifanc fel tystion i gam-drin a goroeswyr cam-drin eu hunain;
- iii) Yr effaith y gall VAWDASV ei gael ar y rhiant nad yw'n cam-drin y gall eu plant a phobl ifanc fod yn defnyddio gwasanaethau CAMHS;
- iv) Cyflawni VAWDASV ac ymarfer diogel.
- v) Anghenion lluosog cymhleth plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin neu drais er mwyn iddynt allu trin y cleient yn gyfannol yn hytrach na chanolbwytio ar un mater penodol fel ADHD ac ati.

5.1 Pontio i Wasanaethau Oedolion - Pa mor dda mae pontio i wasanaethau iechyd meddwl oedolion yn cael ei gynllunio a'i reoli.

5.2. Mae pryderon wedi'u codi gan aelod-wasanaethau arbenigol ynghylch pontio o wasanaethau plant i oedolion, nad yw'n cael ei weld yn broses llyfn. Unwaith mae'r gwasanaethau plant yn dod i ben oherwydd oed y person ifanc, mae gofyn i'r oedolyn ifanc gael ei atgyfeirio'n ôl i mewn i'r gwasanaethau oedolion. Yna caiff yr oedolyn ifanc ei osod ar restr aros am gymorth sydd ambell waith yn golygu gorfod aros am fisoedd am gymorth unwaith eto.

5.3 Amlygodd adborth goroeswyr y gofid enfawr a'r effaith niweidiol y gall hyn ei gael ar les y person ifanc. Mae hefyd yn amlygu aneffeithlonrwydd yn y system oherwydd yn y pen draw gall gostio mwy i ddarparu rhagor o gymorth i'r un person ifanc i liniaru effaith bwlch yn y cymorth yn ystod y cyfnod pontio.

Argymhellion:

- 4) Mae dirfawr angen pontio cliriach a mwy llyfn o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion sy'n caniatáu i bobl ifanc ac oedolion ifanc barhau i ddefnyddio'r un gwasanaethau tra byddant yn pontio rhwng CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion.

6.1 Cysylltiadau gydag Addysg (deallusrwydd emosiynol a ffyrdd iachus o ymdopi):

- a) y graddau y mae'r gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn cydweithio;
- b) datblygiad maes iechyd a Llesiant o Ddysgu a Phrofiad fel rhan o'r cwricwlwm newydd.

6.2. Mewn un ardal adroddodd aelod-wasanaeth arbenigol nad oedd plant a phobl ifanc oedd yn cael cymorth CAMHS yn cael eu cyfeirio at asiantaethau perthnasol eraill. Hefyd, nid oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu a fyddai'n caniatáu ymagwedd gyfannol at y teulu. Dywedon nhw yn eu profiad nhw fod y cymorth roedd plant a phobl ifanc yn ei dderbyn yn unigol iawn gan ganolbwytio ar un mater penodol ond y byddai ymagwedd fwy cyfunol yn llawer mwy buddiol.

6.3 Fodd bynnag, adroddwyd am ddull cydlynol gan weithiwr plant a phobl ifanc oedd yn llawer mwy cadarnhaol: "Rwyf i wedi cael cyfarfodydd 1:1 gyda seicolegydd clinigol CAMHS i drafod cynllun cymorth unigolyn yn ystod y cyfnod pontio o ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Cynlluniwyd sesiynau rhwng yr ysgol uwchradd, y seicolegydd clinigol a fi i sicrhau'r teulu a'r unigolyn bod pob agwedd yn





Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



cael ei gynllunio, felly pe bai unrhyw broblemau yn ystod y tymor ysgol roedd 'cynllun B' bob amser yn bodoli i sicrhau bod diogelwch y person ifanc bob amser yn cael ei gynnal."

6.4 Mae rhai aelod-wasanaethau arbenigol Cymorth i Ferched Cymru hefyd wedi nodi eu bod wedi derbyn hyfforddiant CAMHS buddiol iawn, sydd wedi'i ddarparu ar safon uchel, yn enwedig ar atal cynnar ynghylch iselder, gor-bryder, anhwylderau bwyta a thrawma.

6.5 O ran y newidiadau i'r cwricwlwm, mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu y dylai'r holl blant a phobl ifanc yn y system addysg yng Nghymru gael budd o addysg iechyd a lles o ansawdd uchel. Yn benodol rydym ni'n galw am ddull addysg gyfan:

- **Dull Addysg Gyfan:** argymhellodd goroeswyr trais yn erbyn menywod ddull addysg gyfan ym mhob ysgol, a bod rhaid iddo gael cymorth y sector trais yn erbyn menywod arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru'² y dylid ei anfon i bob llwyfan addysgol.

6.6 Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi hyrwyddo dull addysg gyfan o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ysgolion. Rydym ni'n credu y gallai'r ymchwil a'r ymarfer (a amlinellir yn y Canllaw Arfer Da) gael effaith enfawr o ran atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer y mathau hyn o gam-drin ac yn y pen draw bydd yn arwain at genhedlaeth iachach o ddinasyddion ifanc yng Nghymru. Drwy geisio atal cam-drin rhag dechrau neu liniaru ei effeithiau drwy ei ganfod yn gynnar, bydd hefyd yn hybu gwell lles ac iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Argymhellion:

5) Ymarfer addawol mewn gwasanaethau CAMHS, sy'n cydweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, i'w fabwysiadu ar draws Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau arbenigol wedi cael adborth mwy negyddol am eu gwasanaethau CAMHS lleol.

6) Dylid anfon 'Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru' Llywodraeth Cymru i bob sefydliad addysg gydag ymrwymiad clir i'w gyflwyno ym mhob ysgol.

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch eto i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y cyfle i gynnig sylwadau ar y mater pwysig hwn. Mae Cymorth i Ferched hefyd ar gael i ddarparu rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ynghylch y materion hyn os oes angen.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am ein hymateb i:

Hilary Watson – Swyddog Polisi ac Ymchwil

02920 541 551

HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk

² <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-cy.pdf>

